# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary
# 25/11/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Manufacturing Sector

**Q4 David Melding:** Will the First Minister make a statement on the manufacturing sector in Wales? OAQ(3)1495(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Welsh companies operate in a global context where, over the next decade, manufacturing and other exportable services will, I believe, lead the economic upturn in the United Kingdom. The climb back out of recession over the next few years will rely on these sectors, rather than the financial services-led growth of the previous decade.

### Sector Gweithgynhyrchu

**C4 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ(3)1495(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae cwmnïau o Gymru yn gweithredu mewn cyd-destun byd-eang lle bydd gweithgynhyrchu a gwasanaethau eraill y gellir eu hallforio, yn fy marn i, yn arwain y gwelliant economaidd yn y Deyrnas Unedig dros y degawd nesaf. Er mwyn llacio gafael y dirwasgiad yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd yn rhaid i ni ddibynnu ar y sectorau hyn, yn hytrach nag ar y twf a arweiniwyd gan wasanaethau ariannol yn ystod y degawd blaenorol.